



Arthropodau sydd wedi marw allan yw trilobitau, oedd yn byw yn y moroedd rhwng tua 520 a 250 miliwn o flynyddoedd yn ôl. Fel un o'r grwpiau anifeiliaid mwyaf amrywiol, roeddent yn rhan bwysig o ecosystemau morol cynnar. Mae eu sgerbydau allanol caled i'w gweld yn aml fel ffosilau.

Am ragor o ganllawiau natur neu i gysylltu â gwyddonwyr ein hamgueddfa i helpu gydag adnabod, ewch i: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws

Ordoficaidd

Craig Ordoficaidd yw mwyafrif y Canolbarth, yn dyddio o gyfnod pan oedd y tir yn ynysoedd folcanig yng nghanol cefnfor. Mae'r rhan fwyaf yn garreg laid neu siâl wedi'i ddyddodi ar wely'r môr rhwng yr ynysoedd. Tua 445 i 485 miliwn o flynyddoedd yn ôl oedd y cyfnod Ordoficaidd, ac mae'r trilobitau sydd i'w canfod mewn creigiau Ordoficaidd yng Nghymru yn dyddio o 460-470 miliwn o flynyddoedd yn ôl.



Bettonia (hyd at 1.5cm)




Broeggerolithus (hyd at 1cm)

Trinucleaidd

Teulu arbennig o drilobitau gyda ffrinj o gwmpas y pen yw trinucleiaid. Mae gan bob ffrinj resi o bantiau, fyddai'n cael eu defnyddio i synhwyro neu ffiltro bwyd, mwy na thebyg. Mae nifer a threfn y pantiau yn help i adnabod y gwahanol rywogaethau. Dim yn y cyfnod Ordoficaidd mae Trinucleiaid i'w gweld, ac mae sawl rhywogaeth i'w gweld yng Nghymru. Mae'r ffrinj wedi torri neu ei gladdu yn y graig gyda rhai ffosilau.



Botrioides (hyd at 1.5cm)



Salterolithus (hyd at 2cm)

Bariau Graddfa

3mm yw pob bar graddfa.

Peidiwch morthwyllo'r clogwyni, neu unrhyw ffosilau mewn carreg soled.



Whittardolithus (hyd at 1cm)



Trinucleus (hyd at 3cm)